## G Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**Cynnal yr asesiad o'r effaith**

**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiad anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. Mae'n cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan gyffwrdd â phob un o'r nodau, mae cysylltiadau clir, penodol â gweithio tuag at Gymru gydnerth, iachach, fwy cyfartal o gymunedau cydlynus.

Nod trosfwaol y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) (y Bil) yw sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod); er mwyn gwneud darpariaeth i atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd; a gwneud darpariaeth at ddibenion cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Mae'r cynigion deddfwriaethol yn ceisio mynd i'r afael â mater etifeddol sy'n deillio o orffennol mwyngloddio Cymru. Gyda dros 85% o domenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, nod y cynigion yw darparu cyfundrefn reoleiddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar y cymunedau hyn, y mae llawer ohonynt ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig gan ddefnyddio Nod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). O ystyried lle mae'r rhan fwyaf o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ffynhonnell dystiolaeth allweddol yw'r data ar leoliadau tomenni glo nas defnyddir, a gasglwyd gan yr Awdurdod Glo gyda chymorth awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Hyd yma, mae dros 2,500 o domenni glo nas defnyddir wedi'u nodi, ac mae'r set ddata hon yn rhoi gwybodaeth am agosrwydd y tomenni hyn at gymunedau. Mae Atodiad A yn rhoi enghraifft o orosod lleoliadau'r tomenni glo nas defnyddir risg uwch yn erbyn y MALIC.

Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, yr Awdurdod, a bydd yn rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Mae'r Bil hefyd yn darparu'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ar dir, lle mae'n ystyried bod gweithrediadau o'r fath yn angenrheidiol i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol.

Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir a gall roi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd sefydlu'r Awdurdod yn effeithio'n negyddol ar anghydraddoldebau canlyniad a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

Y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer gwneud gorchmynion o dan adran 151(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010), i ychwanegu'r Awdurdod at y rhestr yn Atodlen 19 i Ddeddf 2010.

Yn rhinwedd ei gynnwys yn rhestr yr awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 o Ddeddf 2010, bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (neu nodweddion lluosog) a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

***Pa wybodaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt gan y cynnig/penderfyniad ac yn benodol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?***

Mae'r wybodaeth a gafwyd drwy ein hymgysylltu a rhyngweithio â'r cyhoedd yn dangos na fydd unrhyw effaith negyddol yn sgil y Bil hwn ar y rhai sy'n dioddef anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Gweler yr "Adroddiad ar yr ymgysylltu wyneb yn wyneb ac mewn sesiynau ar-lein" isod.

***A yw nodweddion gwarchodedig wedi cael eu hystyried?***

Ydyn, ni fydd darpariaethau'r Bil yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau.

***A yw cymunedau buddiant a lleoedd buddiant wedi cael eu hystyried?***

*Pa wybodaeth sydd wedi cael ei hystyried ynglyn â thueddiadau'r dyfodol?*

Fe wnaeth ymatebwyr i bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith godi pryderon ynghylch yr effaith negyddol y gallai tomenni glo ei chael ar brisiau eiddo a rhwymedigaethau yswiriant.

Dylai'r gyfundrefn archwilio a chynnal a chadw arfaethedig weithio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar rwymedigaethau yswiriant a phrisiau eiddo. Er bod cynnydd yn amlder llifogydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cynyddu'r risg o lithriadau tomenni yn digwydd yn amlach, bwriad cyflwyno cyfundrefn ddeddfwriaethol newydd i fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yw lleihau'r risg a'r tebygolrwydd y bydd tirlithriadau o'r fath yn digwydd. Bydd y Bil yn sefydlu'r Awdurdod a fydd yn gweithredu cyfundrefn reoleiddio newydd i fonitro a chynnal

tomenni nas defnyddir yng Nghymru, bydd hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i'r bobl sy'n byw yn agos i domenni nas defnyddir yng Nghymru.

*Pa ddata sydd wedi cael eu hystyried (Cenedlaethol a lleol)*

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Tynnodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith, a dadansoddi pellach lle bo hynny'n briodol. Canfu Comisiwn y Gyfraith fod y fframwaith deddfwriaethol presennol fel y darperir gan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, wedi dyddio a bod angen diwygio i ddiogelu'r cyhoedd rhag tirlithriadau yn y dyfodol. Ers 2020, mae'r Awdurdod Glo, fel y comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth am leoliad, statws a pherchnogaeth tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru.

Mae mapio ac arfarnu cynhwysfawr o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru wedi creu set ddata gyntaf o'i math sydd wedi cefnogi datblygu'r cynnig yn ogystal â thystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid, diwydiant ac arbenigwyr pwnc cydnabyddedig.

Yn 2021, cydnabu'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru annibynnol y potensial i effeithiau hinsawdd gynyddu'r risg yn y dyfodol o dirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio hanesyddol.

Cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd adroddiad ym mis Chwefror 2022: "Newid Hinsawdd: Effeithiau, Ymaddasu a Gwendidau". Nododd yr adroddiad fod newid hinsawdd o achosion dynol wedi cyfrannu at effeithiau niweidiol eang a cholledion a niwed cysylltiedig i bobl a natur. Effeithir yn anghymesur ar y bobl a'r systemau mwyaf agored i niwed.

Yn fwy diweddar, amlygodd adroddiad 2023 Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd y bydd effeithiau a risgiau hinsawdd yn cynyddu gyda chynyddiadau mewn cynhesu byd-eang, gyda risgiau'n dod yn fwyfwy cymhleth ac anodd eu rheoli.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r angen am gynllunio ymaddasu i newid hinsawdd cryfach a datblygu cyfuniadau o ymaddasiadau a all ymateb i newid hinsawdd. Bydd risgiau'n cydredeg a bydd effeithiau amrywiol ar ein cymunedau.

Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)

Adroddiad-Rheoleiddio-Diogelwch-Tomenni-Glo-yng-Nghymru.pdf

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU

Dod o hyd i domenni glo segur | LLYW.CYMRU

**Sut allai'r cynnig o bosibl waethygu ymhellach anghydraddoldeb canlyniad a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Yn gyffredinol, nod y Bil yw darparu cyfundrefn reoleiddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar gymunedau sy'n profi anghydraddoldeb canlyniad yn anghymesur o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol (h.y. cymoedd y De).

Fodd bynnag, un risg bosibl yw y gallai eiddo sydd wedi'u lleoli'n agos i domenni sy'n achosi'r pryder mwyaf weld effaith ar eu polisïau yswiriant a gallant fod yn destun premiymau yswiriant uwch; mae'n bosibl hefyd y bydd gwerthoedd eiddo yn gostwng.

I osod hyn yn ei gyd-destun, nododd Atodiad 4 o ymgynghoriad y Papur Gwyn ddadansoddiad economaidd sy'n nodi nad oes tystiolaeth gadarn o effaith negyddol hirdymor amlwg a pharhaus tirlithriadau a digwyddiadau llifogydd ar brisiau tai a gwerthu eiddo. Mae prisiau tai yn y rhanbarth wedi tueddu i beidio â chael eu heffeithio'n andwyol gan ddigwyddiadau dinistriol tebyg sydd wedi cael eu hystyried yn ddirprwyon ar gyfer effaith negyddol methiannau tomenni sborion glo, megis llifogydd a thirlithriadau.

Yn gyffredinol, ystyrir mai'r risg bennaf yw'r effaith economaidd ganfyddedig ('malltod') wrth ryddhau lleoliadau'r tomenni nas defnyddir a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio yn hytrach nag unrhyw effeithiau economaidd gwirioneddol.  Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI), y Sefydliad Yswiriant Siartredig a gwarantwyr ac i ystyried unrhyw effeithiau posibl.

**Sut allai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bydd gweithrediadau a wneir gan yr Awdurdod (neu yn dilyn hysbysiad gan yr Awdurdod) yn cynyddu diogelwch tomenni nas defnyddir a, thrwy oblygiad, diogelwch yr ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn debygol o wella gwerth lles yr ardaloedd dan sylw ac felly cyfrannu at welliannau lles cyffredinol yn ardal yr awdurdod lleol perthnasol.

Rhan annatod o'r broses ddeddfwriaethol a llunio polisi yw cwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) sy'n rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru a rhanddeiliaid am effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'r AERh yn nodi buddion disgwyliedig y gyfundrefn a sefydlir gan y Bil ar dudalennau 80 i 94 (paragraff 8.104 - 8.168). Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. Rhagwelir hefyd y bydd y cynnydd mewn diogelwch o amgylch tomenni nas defnyddir yn arwain at welliannau yn y gwerth lles a gyfrifir o'r gwelliannau hamdden mwy diogel a allai ddilyn gweithrediadau a wneir o dan y Bil. Mae'n debygol hefyd y bydd cyfleoedd cyflogaeth yn gysylltiedig â'r gweithgareddau sydd i'w cyflawni o dan y Bil.  Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd manteision gofal iechyd anfesuredig gyda phwyslais penodol ar welliannau iechyd meddwl yn yr ardaloedd sy'n amgylchynu tomenni nas defnyddir.

Mae’n debygol y bydd canlyniadau o’r fath i’w gweld yn y sectorau canlynol (ymhlith eraill):

- Twristiaeth;
- Tai;
- Adeiladu;
- Coedwigaeth;
- Hamdden; a
- Masnach cyfanwerthu a manwerthu.

**Sut fyddwch chi’n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**

Mae gan y AERh gynigion manwl ar adolygiad ôl-weithredu, gwerthuso a monitro parhaus, y mae rhai ohonynt wedi’u hamlinellu isod.

Rhagwelir cynnal adolygiad ôl-weithredu cychwynnol tua 5 mlynedd ar ôl i’r gyfundrefn ddod i rym, a fyddai’n 7 mlynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Byddai hyn yn caniatáu i’r mwyafrif helaeth o domenni glo nas defnyddir gael eu hasesu’n llawn a, lle bo’n briodol, eu hychwanegu at y gofrestr a byddai’n dod ar yr adeg lle byddai tomenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau cael eu hystyried.

Byddai adolygiad o'r fath yn debygol o ystyried effeithiolrwydd y gyfundrefn, gan gynnwys y canllawiau a fydd wedi eu cyhoeddi, yn ogystal â'r Awdurdod.

Bydd gwerthuso parhaus hefyd yn bosibl drwy’r rhwymedigaethau statudol ar yr Awdurdod a nodir yn y Bil i:

- baratoi cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio (cyfnodau o dair blynedd) o sut mae’n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi adroddiad blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol a gosod copi gerbron y Senedd; a
- pharatoi datganiad cyfrifon yn flynyddol.

Dylai gwerthuso parhaus ystyried cadernid y gyfundrefn fonitro. Gallai hyn gynnwys adolygiad o’r rhyngweithio â chyfundrefnau amgylcheddol eraill, yn ogystal ag o effeithiolrwydd perthnasoedd gweithio gyda chyrff statudol cyfundrefnau cysylltiedig.

Bydd y gyfundrefn hefyd yn dibynnu ar gyflenwad digonol o staff cymwys i gynnal asesiadau ac archwiliadau technegol. Mae hwn yn faes a fydd angen sylw arbennig, yn barhaus, ac fel rhan o adolygiad.

Rydym yn disgwyl i'r adolygiad ôl-weithredu hefyd ystyried sut y dylid ymdrin â thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, a fydd mapio wedi'u dechrau erbyn hynny. Bydd hyn yn cael ei lywio drwy ddysgu o'r ystad lo ac yn caniatáu i'r Awdurdod fireinio ei ddull o weithredu.

Ym mis Tachwedd 2023, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddata Tomenni Nas Defnyddir Categori C a D i'r parth cyhoeddus, trwy Map Data Cymru (Diogelwch tomenni glo | LLYW.CYMRU).

Mae'r set ddata hon yn dangos lleoliadau a ffiniau tomenni glo nas defnyddir sydd wedi cael sgôr o C neu D (o dan y gyfundrefn newydd bydd y rhain yn cael eu dosbarthu fel 2 ac 1). Mae hyn yn nodi'r tomenni glo hynny sydd fwyaf mewn perygl o dirlithriad ac felly sydd angen eu harchwilio a'u monitro'n amlach.

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| C | Tomen sydd â'r potensial i effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, i'w harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn. |
| D | Tomen sydd â'r potensial i effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, i'w harchwilio o leiaf ddwywaith y flwyddyn. |

Gwnaethom ysgrifennu at dros 2000 o berchnogion a meddianwyr y mae ganddynt domen nas defnyddir neu ran ohoni ar eu tir/eiddo. Gwnaethom drefnu 3 sesiwn ar-lein a 6 sesiwn wyneb yn wyneb yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt i roi cyfle i'r cyhoedd yn yr ardaloedd hynny ddod i siarad â ni a gofyn cwestiynau am y tomenni. Cafodd y digwyddiadau eu cyhoeddi'n eang, drwy ein rhanddeiliaid allweddol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, gwefan Llywodraeth Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhyddhau'r data am y tomenni wedi cael llawer llai o effaith ar bobl yn yr ardaloedd hyn nag yr oeddem wedi'i rhagweld, oherwydd roedd y nifer a ddaeth i'r digwyddiadau yn isel iawn, yn amrywio o 15 yn ardal Merthyr i 0 yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Roedd y nifer a gymerodd ran yn y digwyddiadau ar-lein yn isel iawn hefyd.

Byddwn yn parhau i fonitro'r effeithiau trwy ein cyfathrebu a'n hymgysylltu â'n holl randdeiliaid drwy gydol hynt y Bil.

Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol maes o law pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil. Bydd ymgynghori mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a bydd hyn yn gymesur ac yn briodol i natur y rheoliadau sy'n cael eu cynnig. Bydd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, lle bo hynny'n briodol, wrth i'r polisi gael ei ddatblygu. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau yn y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

**Adroddiad ar yr ymgysylltu wyneb yn wyneb ac mewn sesiynau ar-lein:**

**Trosolwg:**


Yn dilyn cyhoeddi lleoliadau'r tomenni glo nas defnyddir categori C a D yng Nghymru, cyflogwyd Cazbah (cwmni rheoli digwyddiadau, marchnata ac ymchwil) gan Lywodraeth Cymru i drefnu cyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth ar gyfer y rhai y mae'r lleoliadau yn effeithio arnynt. Roedd y sesiynau yn gyfres o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb i sicrhau bod mynediad ar gael i gynulleidfa mor eang â phosibl. Trefnwyd y digwyddiadau ar-lein ar wahanol amseroedd yn ystod y dydd i ganiatáu am wahanol batrymau gweithio a chynhaliwyd y digwyddiadau wyneb yn wyneb yn yr ardaloedd awdurdod lleol yr effeithir arnynt fwyaf gan safleoedd y tomenni. Y rhain oedd Torfaen, Caerffili, RhCT, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful.

## Atodiad A


Mae'r map enghreifftiol isod yn dangos dosbarthiad llabedau tomenni glo nas defnyddir categori C a D yn erbyn categori Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC 2019 yn ardal Blaenau Gwent. I weld yr holl fapiau, cliciwch ar y ddolen.

https://documents.hf.wales.gov.uk/documents/A53902873

Disused Coal Tips against 2019 Overall WIMD - Blaenau Gwent




Mae'r graff isod yn dangos y berthynas rhwng nifer y tomenni C a D a lefel y mynegai amddifadedd:




Mae nifer y tomenni yn y mapiau a'r graffiau uchod yn cyfeirio at nifer y "llabedau" tomenni C a D unigol. Gall nifer y llabedau tomenni amrywio o wahanol weithrediadau mwyngloddio ac nid yw ynddo'i hun yn arwydd o faint y deunydd tomen. Mae'r ardal y mae deunydd y domen yn ymestyn ar ei thraws fesul degradd MALIC hefyd wedi'i chynnwys yn y tabl uchod i gyfiawnhau'r duedd a ddangosir gan nifer y llabedau tomenni.